STATUTORY INSTRUMENTS

# 1989 No. 429

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE

## The Representation of the People (Welsh Forms) Order 1989

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *9th March 1989* |
| *Laid before Parliament* | *17th March 1989* |
| *Coming into force - -* | *21st April 1989* |

In exercise of the powers conferred upon me by sections 2(1) and 3(4) of the Welsh Language Act 1967(**1**), I hereby make the following Order:–

**1.** This Order may be cited as the Representation of the People (Welsh Forms) Order 1989 and shall come into force on 21st April 1989.

**2.** The Elections (Welsh Forms) Order 1970(**2**) is hereby revoked.

**3.** In this Order "the 1983 Act" means the Representation of the People Act 1983(**3**).

**4.** Each of the forms set out in Schedule 1 to this Order is hereby prescribed as the version partly in Welsh and partly in English which shall be used:

(a) in the case of form 1, at a parliamentary election in Wales in place of the notice required by rule 29(5) of the parliamentary elections rules in Schedule 1 to the 1983 Act (voting compartment notice)(**4**);

(b) in the case of form 2, as the proxy paper to be issued by the registration officer in Wales in place of form D (proxy paper) in Schedule 2 to the Representation of the People Regulations 1986(**5**); and

(c) in the case of forms 3, 4 and 5, at a parliamentary election in Wales in place of forms H, J and K (declarations of identity), respectively, in Schedule 2 to the Representation of the People Regulations 1986.

**5.** Each of the forms set out in Schedule 2 to this Order is hereby prescribed as the Welsh version which may be used at a parliamentary election in Wales in place of the forms prescribed by the

(**1**) 1967 c. 66; section 2(1) was extended by section 22(1) of the Representation of the People Act 1985 (c. 50).
(**2**) S.I. 1970/616.
(**3**) 1983 c. 2.
(**4**) Rule 29(5) was amended by paragraph 79 of Schedule 4 to the Representation of the People Act 1985.
(**5**) S.I. 1986/1081; the form of proxy paper was amended by regulation 6 of, and paragraph 1 of Part I of Schedule 4 to, the European Parliamentary Elections Regulations 1986 (S.I. 1986/2209) (the citation of which has been amended by section 3(1)(b) and (2)(b) of the European Communities (Amendment) Act 1986 (c. 58) on the coming into force of the Single European Act (Cmnd. 9758) on 1st July 1987).

following provisions in the parliamentary elections rules in Schedule 1 to the 1983 Act, which provisions are:

(a) in the case of form 1, rule 35(1)(a),

(b) in the case of form 2, rule 35(1)(b),

(c) in the case of form 3, rule 35(2),

(d) in the case of forms 4, 5 and 6, the form of nomination paper, the form of directions for the guidance of the voters in voting(**6**) and the form of declaration to be made by the companion of a blind voter, respectively, set out in the Appendix to those rules.

**6.** The forms set out in Schedules 1 and 2 to this Order, except forms 1, 2 and 3 in Schedule 2, may be used with such modifications as circumstances require.

*Douglas Hurd*
One of Her Majesty's Principal Secretaries of State

Home Office
9th March 1989

(**6**) The form of directions for the guidance of the voters in voting was substituted by the Representation of the People Act 1985, Schedule 4, paragraph 86.

## SCHEDULE 1

Article 4

### Forms partly in Welsh and partly in English

Form 1

Vote for one candidate only. Put no other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

Pleidleisiwch i un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu fe all na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

Form 2Proxy paperPapur dirprwyREPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS EUROPEAN PARLIAMENTARY ELECTIONS ACT 1978DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL DEDDF ETHOLIADAU SENEDD EWROP 1978

Constituency
Etholaeth ____________________

Polling district
Dosbarth pleidleisio ____________________

Local government electoral area(s)
Rhanbarth(au) etholiadol llywodraeth leol ____________________

European Parliamentary constituency
Etholaeth Senedd Ewrop ____________________

Penodir

Name of proxy
Enw'r dirprwy ..................................................

Address ..................................................
Cyfeiriad ..................................................

is hereby appointed as proxy for (Name of Elector)
drwy hyn yn ddirprwy dros (Enw'r Etholwr(aig)) ..................................................

*[who is qualified to be registered for (Qualifying address)
sy'n gymwys i'w gofrestru/i'w chofrestru ar gyfer (Cyfeiriad cymhwyso)
..................................................]

*[who qualifies as an overseas elector in respect of the above constituency
sy'n gymwys fel etholwr(aig) dramor mewn perthynas â'r etholaeth uchod]

to vote for him/her at
i bleidleisio drosto/drosti yn

*[the *[parliamentary] [local government] [European Parliamentary] election for the above *[constituency] [electoral area] [European Parliamentary constituency]

*[yr [etholiad* seneddol] [llywodraeth leol] [Senedd Ewrop] ar gyfer yr *[etholaeth] [rhanbarth etholiadol] [etholaeth Senedd Ewrop] uchod.

on (date)
ar (dyddiad) ..................................................]

*[any *[parliamentary or European Parliamentary election] [parliamentary, European Parliamentary or local government election] for the above *[parliamentary and European Parliamentary constituencies] [parliamentary and European Parliamentary constituencies and local government area(s).]

*[unrhyw *[etholiad seneddol neu etholiad Senedd Ewrop] [etholiad seneddol, etholiad Senedd Ewrop neu etholiad llywodraeth leol] ar gyfer yr *[etholaethau seneddol a Senedd Ewrop uchod] [etholaethau seneddol a Senedd Ewrop a rhanbarth (au) llywodraeth leol] uchod.]

*[This proxy appointment is not valid until
Nid yw penodiad y dirprwy hwn yn ddilys tan ..................................................]

Signature
Llofnod ..................................................

(Electoral Registration Officer)
(Swyddog Cofrestru Etholiadol)

Address..................................................
Cyfeiriad ..................................................

Date
Dyddiad ..................................................

**Delete whichever is inappropriate*
*Dileër yr hyn sy'n anghymwys*

YOUR RIGHT TO VOTE AS PROXY
EICH HAWL I BLEIDLEISO FEL DIRPRWY

**1.** This proxy paper gives you the right to vote as proxy on behalf of the elector whose name is given overleaf.

**1.** Rhydd y papur dirprwy hwn hawl i chi bleidleisio fel dirprwy dros yr etholwr(aig) a enwir drosodd.

**2.** Your appointment as proxy may be for a particular election only, or it may be for an indefinite period. If it is for a particular election, you have the right to vote as proxy only at the election specified in the proxy paper. If it is for an indefinite period, you have in general the right to vote as proxy at any parliamentary, European Parliamentary or local election until the electoral registration officer informs you to the contrary. But if the person on whose behalf you have the right to vote as proxy qualifies as an overseas elector you may vote on his or her behalf only at parliamentary and European Parliamentary elections.

**2.** Gall eich penodiad fel dirprwy fod ar gyfer etholiad penodol yn unig, neu gall barhau am gyfnod amhenodol. Os yw ar gyfer etholiad penodol, mae gennych hawl i bleidleisio fel dirprwy yn unig yn yr etholiad a nodir yn y papur dirprwy. Os am gyfnod amhenodol y mae, mae gennych yr hawl fel rheol i bleidleisio fel dirprwy mewn unrhyw etholiad seneddol, etholiad Senedd Ewrop neu etholiad lleol nes i'r swyddog cofrestru etholiadol eich hysbysu i'r gwrthwyneb. Ond os yw'r person y mae gennych hawl i bleidleisio fel dirprwy drosto/drosti yn gymwys fel etholwr(aig) dramor cewch bleidleisio drosto/drosti yn unig mewn etholiadau seneddol ac etholiadau Senedd Ewrop.

**3.** When the elector applied for you to be appointed as proxy EITHER he or she was asked to state that he or she had consulted you and that you were capable of being and willing to be appointed as proxy OR you signed a statement stating that you were capable of being and willing to be appointed. You are capable of being appointed as proxy if you are at least 18 years old on polling day, a British or other Commonwealth citizen or a citizen of the Republic of Ireland and not for any reason disqualified from voting. If for some reason you are not capable of being, or willing to be, appointed as proxy, please write to the elector asking him to cancel the appointment.

3. Pan wnaeth yr etholwr(aig) gais i chi gael eich penodi yn ddirprwy, NAILL AI gofynnwyd iddo/iddi ddatgan iddo/iddi ymgynghori â chi a'ch bod yn gymwys i fod yn ddirprwy ac yn fodlon cael eich penodi NEU bu i chi lofnodi datganiad eich bod yn gymwys i fod yn ddirprwy ac yn fodlon cael eich penodi. Yr ydych yn gymwys i'ch penodi yn ddirprwy os ydych yn 18 oed o leiaf ar y dyddiad pleidleisio, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd un arall o wledydd y Gymanwlad neu yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon a heb eich gwahardd rhag pleidleisio am unrhyw reswm. Os nad ydych, am unrhyw reswm, yn gallu bod yn ddirprwy neu yn fodlon cael eich penodi yn ddirprwy, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr etholwr(aig) gan ofyn iddo/iddi ddileu'r pendodiad.

4. You may vote as proxy at the polling station alloted to the elector on whose behalf you are appointed. However, you may not vote as proxy at the same election for more than two electors of whom you are not the husband, wife, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild. Shortly before polling day you will be sent a proxy poll card telling you where the polling station is. You do not need to take either the poll card or this proxy paper to the polling station but you may find it helpful to do so. Remember that the elector may still vote in person. If he or she applies for a ballot paper at the polling station before you do you will not be able to vote as proxy on his or her behalf.

4. Cewch bleidleisio fel dirprwy yn yr orsaf bleidleisio a bennwyd i'r etholwr(aig) y penodwyd chi drosto/drosti. Er hynny, ni chewch bleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad dros fwy na dau o etholwyr nad ydych yn ŵr, gwraig, rhiant, tadcu neu famgu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu ŵyres iddynt. Ychydig cyn y dyddiad pleidleisio anfonir cerdyn pleidleisio dirprwy atoch yn dweud lle mae'r orsaf bleidleisio. Nid oes angen i chi fynd â'r cerdyn pleidleisio na'r papur dirprwy hwn gyda chi i'r orsaf bleidleisio, ond hwyrach y bydd o gymorth i chi wneud hynny. Cofiwch y caiff yr etholwr(aig) ddal i bleidleisio yn bersonol. Os bydd iddo/iddi wneud cais am bapur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio ni allwch bleidleisio fel dirprwy drosto/drosti.

5. If you cannot vote in person at the polling station the electoral registration officer may be able to allow you to vote as proxy by post. If your appointment is for an indefinite period, you may apply to vote by post throughout the period your appointment is in force if you live in a different electoral division from the elector's qualifying address - or if the addresses are in the same electoral division but in a different community in Wales. If you are registered for the same constituency or electoral area as the elector, you may apply if you are entitled to vote by post or proxy on your own behalf. In addition, you may vote by post at a particular election if the electoral registration officer is satisfied that you cannot reasonably be expected to vote in person at the elector's polling station. But the electoral registration officer cannot allow an application to vote by post at a particular election if he receives it after midday on the thirteenth working day before the poll.

5. Os na allwch bleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio, hwyrach y gall y swyddog cofrestru etholiadol ganiatáu i chi bleidleisio fel dirprwy trwy'r post. Os yw eich penodiad am gyfnod amhenodol, cewch wneud cais i bleidleisio trwy'r post trwy gydol y cyfnod y bydd eich penodiad mewn grym os ydych yn byw mewn adran etholiadol wahanol i gyfeiriad cymwys yr etholwr(aig)- neu os yw'r ddau gyfeiriad yn yr un adran etholiadol ond mewn cymdeithas wahanol yng Nghymru. Os cofrestrwyd chi yn yr un etholaeth neu ranbarth etholiadol â'r etholwr(aig), cewch wneud cais os oes gennych hawl i bleidleisio trwy'r post neu drwy ddirprwy ar eich rhan chi'ch hun. Hefyd, cewch bleidleisio trwy'r post mewn etholiad penodol os yw'r swyddog cofrestru etholiadol yn fodlon na ellir disgwyl yn rhesymol i chi bleidleiso yn bersonol yng ngorsaf bleidleisio'r etholwr(aig). Ond ni chaiff y swyddog cofrestru etholiadol ganiatáu cais i bleidleisio trwy'r post mewn etholiad penodol os daw i'w law ar ôl canol dydd ar y trydydd diwrnod gwaith ar ddeg cyn y bleidlais.

Form 3

*Front of form*
*Wyneb y ffurflen*

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Ballot Paper No.
Rhif y Papur Pleidleisio ..........................................

I hereby declare that I am the person to whom the ballot paper numbered as above was sent.

Yr wyf yn datgan drwy hyn mai fi yw'r person yr anfonwyd iddo/iddi'r papur pleidleisio â'r rhif uchod.

Voter's signature (or mark)
Llofnod y pleidleisiwr (neu farc) ..........................

The voter, who is personally known to me, has signed (or marked) this declaration in my presence.

Mae'r pleidleisiwr, a adnabyddir gennyf yn bersonol, wedi llofnodi (neu farcio) y datganiad hwn yn fy mhresenoldeb.

Witness's signature
Llofnod y tyst ..................................................

Name of witness ....................................................
(CAPITAL LETTERS)

Enw'r tyst ............................................................
(PRIFLYTHRENNAU)

Address of witness ................................................
(CAPITAL LETTERS)

Cyfeiriad y tyst ....................................................
(PRIFLYTHRENNAU)

SEE INSTRUCTIONS ON THE BACK OF THIS FORM
GWELER Y CYFARWYDDIADAU AR GEFN Y FFURFLEN HON

*Back of form*
*Cefn y ffurflen*

INSTRUCTIONS TO THE VOTER
CYFARWYDDIADAU I'R PLEIDLEISIWR

**1.** You must sign (or mark) this declaration of identity in the presence of a person known to you. That person should then sign this declaration as a witness, adding his or her name and address. Without this the declaration will be invalid.

**1.** Rhaid i chi lofnodi (neu farcio) y datganiad hwn ynglŷn ag adnabyddiaeth ym mhresenoldeb person sy'n adnabyddus i chi. Dylai'r person hwnnw lofnodi'r datganiad hwn fel tyst, gan ychwanegu ei (h)enw a'i gyfeiriad/chyfeiriad. Heb hynny bydd y datganiad yn annilys.

**2.** Vote for one candidate only. Put no other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

**2.** Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**3.** Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate you are voting for. Do this secretly. If you cannot vote without assistance, the person assisting you must not disclose how you have voted.

**3.** Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd y pleidleisiwch drosto. Gwnewch hyn yn gyfrinachol. Os na allwch bleidleisio heb gymorth, rhaid i'r person sy'n eich cynorthwyo beidio â datgelu sut y gwnaethoch bleidleisio.

**4.** Put the ballot paper in the small envelope marked "A" and seal it. Then put the envelope marked "A", together with the declaration of identity, in the larger envelope marked "B". Return it without delay. The ballot paper, in order to be counted, must be received by the returning officer not later than the close of the poll.

**4.** Rhowch y papur pleidleisio yn yr amlen fach a nodir ag "A" a seliwch hi. Yna rhowch yr amlen a nodir ag "A" ynghyd â'r datganiad ynglŷn ag adnabyddiaeth yn yr amlen fwy a nodir â "B". Dychwelwch hi ar unwaith. Er mwyn cael ei gyfrif, rhaid i'r papur pleidleisio gyrraedd y swyddog canlyniadau cyn i'r pleidleisio ddod i ben.

**5.** If you receive more than one ballot paper, remember that it is illegal to vote more than once (otherwise than as proxy) at the same election.

**5.** Os cewch fwy nag un papur pleidleisio cofiwch ei bod hi'n anghyfreithlon pleidleisio mwy nag unwaith (ac eithrio fel dirprwy) yn yr un etholiad.

**6.** At this election you cannot vote in person at a polling station, even if you receive an official poll card.

**6.** Yn yr etholiad hwn, ni allwch bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, hyd yn oed os cewch gerdyn pleidleisio swyddogol.

**7.** If you inadvertently spoil your ballot paper, you can apply to the returning officer for another one. With your application you must return, in your own envelope, the spoilt ballot paper, the declaration of identity and the envelopes marked "A" and "B". Remember that there is little time available if a fresh postal ballot paper is to be issued and counted.

**7.** Os gwnewch ddistrywio'n ddamweiniol eich papur pleidleisio drwy'r post, gallwch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un arall. Gyda'ch cais rhaid i chi ddychwelyd, yn eich amlen eich hun, y papur pleidleisio a ddistrywiwyd, y datganiad ynglŷn ag adnabyddiaeth, ynghyd â'r amlenni a nodwyd "A" a "B". Cofiwch nad oes fawr o amser ar ôl os yw papur pleidleisio newydd i gael ei ddosbarthu a'i gyfrif.

Form 4

*Front of form*
*Wyneb y ffurflen*

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

Ballot Paper Nos.
Rhifau'r Papurau Pleidleisio ....................................

I hereby declare that I am the person to whom the ballot papers numbered as above were sent.

Yr wyf yn datgan drwy hyn mai fi yw'r person yr anfonwyd iddo/iddi'r papurau pleidleisio â'r rhifau uchod.

Voter's signature (or mark)
Llofnod y pleidleisiwr (neu farc) ...........................

The voter, who is personally known to me has signed (or marked) this declaration in my presence.

Mae'r pleidleisiwr, a adnabyddir gennyf yn bersonol, wedi llofnodi (neu farcio) y datganiad hwn yn fy mhresenoldeb.

Witness's signature
Llofnod y tyst ..............................................

Name of witness ..............................................
(CAPITAL LETTERS)

Enw'r tyst ..............................................
(PRIFLYTHRENNAU)

Address of witness ..............................................
(CAPITAL LETTERS)

Cyfeiriad y tyst ..............................................
(PRIFLYTHRENNAU)

SEE INSTRUCTIONS ON THE BACK OF THIS FORM
GWELER Y CYFARWYDDIADAU AR GEFN Y FFURFLEN HON

*Back of form*
*Cefn y ffurflen*

## INSTRUCTIONS TO THE VOTER
## CYFARWYDDIADAU I'R PLEIDLEISIWR

**1.** You must sign (or mark) this declaration of identity in the presence of a person known to you. That person should then sign this declaration as a witness, adding his or her name and address. Without this the declaration will be invalid.

**1.** Rhaid i chi lofnodi (neu farcio) y datganiad hwn ynglŷn ag adnabyddiaeth ym mhresenoldeb person sy'n adnabyddus i chi. Dylai'r person hwnnw lofnodi'r datganiad hwn fel tyst, gan ychwanegu ei (h)enw a'i gyfeiriad/chyfeiriad. Heb hynny bydd y datganiad yn annilys.

**2.** At the parliamentary election, vote for one candidate only. *[At the election of ........................ vote for no more than ............. candidates.] Put no other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

**To be completed by the returning officer depending on the elections to which Regulation 78 applies.*

**2.** Yn yr etholiad seneddol, pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig. *[Yn etholiad ........................ peidiwch â phleidleisio dros fwy na ................ ymgeisydd]. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**I'w lenwi gan y swyddog canlyniadau yn ôl yr etholiadau y mae Rheol 78 yn gymwys ar eu cyfer.*

**3.** Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate you are voting for. Do this secretly. If you cannot vote without assistance, the person assisting you must not disclose how you have voted.

**3.** Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd y pleidleisiwch drosto. Gwnewch hyn yn gyfrinachol. Os na allwch bleidleisio heb gymorth, rhaid i'r person sy'n eich cynorthwyo beidio â datgelu sut y gwnaethoch bleidleisio.

**4.** Put the ballot papers in the small envelope marked "A" and seal it. Then put the envelope marked "A", together with this declaration of identity, in the larger envelope marked "B". Return it without delay. The ballot papers, in order to be counted, must be received by the returning officer not later than the close of the poll.

**4.** Rhowch y papurau pleidleisio yn yr amlen fach a nodir ag "A" a seliwch hi. Yna rhowch yr amlen a nodir ag "A" ynghyd â'r datganiad hwn ynglŷn ag adnabyddiaeth yn yr amlen fwy a nodir â "B". Dychwelwch hi ar unwaith. Er mwyn cael eu cyfrif, rhaid i'r papurau pleidleisio gyrraedd y swyddog canlyniadau cyn i'r pleidleisio ddod i ben.

**5.** If you receive more than one ballot paper *relating to the same election*, remember that it is illegal to vote more than once (otherwise than as proxy) at that election.

**5.** Os cewch fwy nag un papur pleidleisio *sy'n gysylltiedig â'r un etholiad*, cofiwch ei bod hi'n anghyfreithlon pleidleisio mwy nag unwaith (ac eithrio fel dirprwy) yn yr etholiad hwnnw.

**6.** At these elections you cannot vote in person at a polling station, even if you receive an official poll card.

**6.** Yn yr etholiadau hyn, ni allwch bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, hyd yn oed os cewch gerdyn pleidleisio swyddogol.

**7.** If you inadvertently spoil any ballot paper, you can apply to the returning officer for a new one. If you do this you MUST RETURN ALL OF THE POSTAL BALLOT PAPERS YOU HAVE RECEIVED, together with the spoilt ballot paper. In addition, in your application for fresh postal ballot papers you MUST RETURN in your own envelope, the declaration of identity and the envelopes marked "A" and "B". Remember that there is little time available if fresh postal ballot papers are to be issued and counted.

**7.** Os gwnewch ddistrywio'u ddamweiniol unrhyw bapur pleidleisio drwy'r post, gallwch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un newydd. Os gwnewch hynny, RHAID I CHI DDYCHWELYD YR HOLL BAPURAU PLEIDLEISIO DRWY'R POST A GAWSOCH, ynghyd â'r papur pleidleisio a ddistrywiwyd. Hefyd, yn eich cais am bapurau pleidleisio newydd RHAID I CHI DDYCHWELYD, yn eich amlen eich hun, y datganiad ynglŷn ag adnabyddiaeth a'r amlenni a nodwyd "A" a "B". Cofiwch nad oes fawr o amser ar ôl os yw papur pleidleisio newydd i gael ei ddosbarthu a'i gyfrif.

Form 5

*Front of form*
*Wyneb y ffurflen*

REPRESENTATION OF THE PEOPLE ACTS
DEDDFAU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

To be returned with the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper.
I'w ddychwelyd gyda'r papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*].

[*Insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper No.
Papur pleidleisio lliw [*Nodwch liw'r papur pleidleisio*] Rhif ..................................................

I hereby declare that I am the person to whom the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper numbered above was sent.

Yr wyf yn datgan drwy hyn mai fi yw'r person yr anfonwyd iddo/iddi'r papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*] â'r rhif uchod.

Voter's signature (or mark)
Llofnod y pleidleisiwr (neu farc) ..........................................

The voter, who is personally known to me, has signed (or marked) this declaration in my presence.

Mae'r pleidleisiwr, a adnabyddir gennyf yn bersonol, wedi llofnodi (neu farcio) y datganiad hwn yn fy mhresenoldeb.

Witness's signature
Llofnod y tyst ..................................................

Name of witness ........................................................
(CAPITAL LETTERS)

Enw'r tyst ........................................................
(PRIFLYTHRENNAU)

Address of witness ................................................
(CAPITAL LETTERS)

Cyfeiriad y tyst ........................................................
(PRIFLYTHRENNAU)

SEE INSTRUCTIONS ON THE BACK OF THIS FORM
GWELER Y CYFARWYDDIADAU AR GEFN Y FFURFLEN HON

*Back of form*
*Cefn y ffurflen*

INSTRUCTIONS TO THE VOTER
CYFARWYDDIADAU I'R PLEIDLEISIWR

**1.** You must sign (or mark) this declaration of identity in the presence of a person known to you. *You are required to do this even if you have already signed (or marked) a similar declaration of identity in respect of another election to be held on the same day*. The person known to you should then sign this declaration as a witness, adding his or her name and address. Without this the declaration will be invalid.

**1.** Rhaid i chi lofnodi (neu farcio) y datganiad hwn ynglŷn ag adnabyddiaeth yn mhresenoldeb person sy'n adnabyddus i chi. *Mae'n ofynnol i chi wneud hynny hyd yn oed os ydych eisoes wedi llofnodi (neu farcio) datganiad tebyg ynglŷn ag adnabyddiaeth mewn perthynas ag etholiad arall a gynhelir ar yr un diwrnod.* Dylai'r person a adnabyddir gennych lofnodi'r datganiad hwn fel tyst, gan ychwanegu ei (h)enw a'i gyfeiriad/chyfeiriad. Heb hynny bydd y datganiad yn annilys.

**2.** Vote for one candidate only. Put no other mark on the ballot paper or your vote may not be counted.

**2.** Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**3.** Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the ballot paper opposite the name of the candidate you are voting for. Do this secretly. If you cannot vote without assistance, the person assisting you must not disclose how you have voted.

**3.** Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd y pleidleisiwch drosto. Gwnewch hyn yn gyfrinachol. Os na allwch bleidleisio heb gymorth, rhaid i'r person sy'n eich cynorthwyo beidio â datgelu sut y gwnaethoch bleidleisio.

**4.** Put the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper in the small envelope marked "A" and "Ballot paper envelope for the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper" and seal it. Then put the envelope marked "A" and "Ballot paper envelope for the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper", together with the declaration of identity, in the larger envelope marked "B" and "Covering envelope for the [*insert colour of ballot paper*] coloured ballot paper". TAKE CARE THAT YOU PLACE THE CORRECT BALLOT PAPER, BALLOT PAPER ENVELOPE AND DECLARATION OF IDENTITY IN THE CORRECT COVERING ENVELOPE AND RETURN IT WITHOUT DELAY, OTHERWISE YOUR VOTE MAY NOT BE COUNTED. The ballot paper, in order to be counted, must be received by the returning officer not later than the close of the poll.

**4.** Rhowch y papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*] yn yr amlen fach a nodir ag "A" ac "Amlen papur pleidleisio ar gyfer y papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*]" a seliwch hi. Yna rhowch yr amlen a nodir ag "A" ac "Amlen papur pleidleisio ar gyfer y papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*]" ynghyd â'r datganiad ynglŷn ag adnabyddiaeth, yn yr amlen fwy a nodir â "B" a "Prif amlen ar gyfer y papur pleidleisio lliw [*nodwch liw'r papur pleidleisio*]". GOFALWCH EICH BOD YN RHOI'R PAPUR PLEIDLEISIO CYWIR A'R DATGANIAD YNGLŶN AG ADNABYDDIAETH YN Y BRIF AMLEN GYWIR A DYCHWELWCH HI AR UNWAITH, NEU EFALLAI NA CHAIFF EICH PLEIDLAIS EI CHYFRIF. Er mwyn cael ei gyfrif, rhaid i'r papur pleidleisio gyrraedd y swyddog pleidleisio cyn i'r pleidleisio ddod i ben.

**5.** If you receive more than one ballot paper, remember that it is illegal to vote more than once (otherwise than as proxy) at the *same election*. You are entitled to vote at different elections which are held on the same day.

**5.** Os cewch fwy nag un papur pleidleisio, cofiwch ei bod hi'n anghyfreithlon pleidleisio mwy nag unwaith (ac eithrio fel dirprwy) yn *yr un etholiad*. Mae gennych hawl i bleidleisio mewn etholiadau gwahanol a gynhelir ar yr un diwrnod.

**6.** At this election you cannot vote in person at a polling station, even if you receive an official poll card.

**6.** Yn yr etholiad hwn, ni allwch bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, hyd yn oed os cewch gerdyn pleidleisio swyddogol.

**7.** If you inadvertently spoil your ballot paper, you can apply to the returning officer for another one. With your application you must return, in your own envelope, the spoilt ballot paper, the declaration of identity and the envelopes marked "A" and "B". Remember that there is little time available if a fresh postal ballot paper is to be issued and counted.

**7.** Os gwnewch ddistrywio'n ddamweiniol eich papur pleidleisio drwy'r post, gallwch wneud cais i'r swyddog canlyniadau am un arall. Gyda'ch cais rhaid i chi ddychwelyd, yn eich amlen eich hun, y papur pleidleisio a ddistrywiwyd, y datganiad ynglŷn ag adnabyddiaeth, ynghyd â'r amlenni a nodwyd "A" a "B". Cofiwch nad oes fawr o amser ar ôl os yw papur pleidleisio newydd i gael ei ddosbarthu a'i gyfrif.

## SCHEDULE 2

Article 5

### Forms in Welsh

Form 1

***Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

(i) “Ai chi yw'r person a gofrestrwyd yn y gofrestr etholwyr seneddol ar gyfer yr etholiad hwn fel hyn (*darllenwch y cofnod llawn yn y gofrestr*)?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall, yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?”
Form 2

(i) “Ai chi yw'r person y gwelir ei enw fel A.B. yn y rhestr ddirpwyon ar gyfer yr etholiad hwn, fel un sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran C.D.?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn fel dirprwy ar ran C.D.?”
Form 3

“Ai chi yw gŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu ŵyr [wyres] C.D.?”

“A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn ac yn yr etholaeth hon ar ran dau berson nad ydych yn ŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu *wcirc;yr [wyres] iddynt?”
Form 4ETHOL AELODI WASANAETHU YN Y SENEDD DROS

Etholaeth ..............................................................................................................................

---

Yr ydym ni, sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, drwy hyn yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

| Cyfenw'r ymgeisydd | Enwau eraill yn llawn | Disgrifiad | Cyfeiriad ei gartref yn llawn |
|---|---|---|---|
| | | | |

| Llofnodion | Rhif Etholiadol (gweler nodyn 3) | |
|---|---|---|
| | Llythyren wahaniaethol | Rhif |
| Cynigydd .......................................... | .................... | .................................... |
| Eilydd .......................................... | .................... | .................................... |
| Yr ydym ni sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, yn cytuno drwy hyn â'r enwebiad hwn. | | |
| 1. .......................................... | .................... | .................................... |
| 2. .......................................... | .................... | .................................... |
| 3. .......................................... | .................... | .................................... |
| 4. .......................................... | .................... | .................................... |
| 5. .......................................... | .................... | .................................... |
| 6. .......................................... | .................... | .................................... |
| 7. .......................................... | .................... | .................................... |
| 8. .......................................... | .................... | .................................... |

## NODIADAU

**1.** Tynnir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau ynglŷn â llenwi papurau enwebu, ac amodau eraill sy'n ymwneud ag enwebu a gynhwysir yn rheolau etholiadau seneddol yn Atodiad 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

**2.** Lle'r adnabyddir ymgeisydd yn arferol wrth ryw deitl gellir ei ddisgrifio wrth y teitl hwnnw fel pe bai'n gyfenw iddo.

**3.** Rhif etholiadol person yw ei rif yn y gofrestr a ddefnyddir yn yr etholiad (yn cynnwys llythyren wahaniaethol y dosbarth pleidleisio seneddol y mae wedi'i gofrestru ynddo) ac eithrio cyn i'r gofrestr gael ei chyhoeddi y gellir defnyddio yn lle hynny ei rif (os oes un) yn y rhestr etholwyr ar gyfer y gofrestr honno.

**4.** Ni chaiff etholwr roi enw wrth fwy nag un papur enwebu yn yr un etholiad.

**5.** Ni chaiff person sydd â'i enw ar y gofrestr neu'r rhestri etholwyr roi ei enw wrth bapur enwebu os yw'r cofnod yn rhoi fel dyddiad pryd y daw'n ddigon hen i bleidleisio ddyddiad ar ôl y diwrnod a benodir ar gyfer yr etholiad.

Form 5

*CYFARWYDDYD I BLEIDLEISWYR*

**1.** Pan roir i chi bapur pleidleisio gwnewch yn siŵr iddo gael ei stampio â'r marc swyddogol.

**2.** Ewch i un o'r cabanau pleidleisio. Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw yr ymgeisydd yr ydych am bleidleisio trosto.

**3.** Plygwch y papur yn ddau. Dangoswch y marc swyddogol i'r swyddog llywyddu, ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisiau a mynd allan o'r orsaf bleidleisio.

**4.** Pleidleisiwch i un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu fe all na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

**5.** Os bydd i chi drwy gamgymeriad ddifetha eich papur pleidleisio, ewch a'i ddangos i'r swyddog llywyddu a gofyn am un arall.

Form 6

Gwnaed cais i mi, A.B. o ............... gynorthwyo C.D. (*yn achos person dall sy'n pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* pleidleisio fel dirprwy ar ran M.N.) sef rhif ........ ar y gofrestr i gofnodi ei bleidlais yn yr etholiad a gynhelir yn awr yn yr etholaeth hon yn datgan drwy hyn [bod gennyf hawl i bleidleisio fel etholwr yn yr etholiad a enwyd [fy mod yn* .... i'r pleidleisiwr hwnnw ac wedi cyrraedd fy 18 mlwydd oed], ac na fu i mi o'r blaen gynorthwyo unrhyw bleidleisiwr dall [ac eithrio E.F. o ...............] i bleidleisio yn yr etholiad a enwyd.

*Nodwch berthynas y cydymaith a'r pleidleisiwr

(Llofnodwyd) A.B.

y ........ dydd o fis ........ 19 .

Yr wyf fi y gwelir fy llofnod isod sef swyddog llywyddu gorsaf bleidleisio ........ ar gyfer Etholaeth yn tystio drwy hyn fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i ddechrau yng nghlyw'r datganwr a enwir uchod, a'i fod ef wedi ei lofnodi wedyn yn fy ngŵydd.

(Llofnodwyd) G.H.

y ........ dydd o fis ........ 19 .
am munud wedi .... [a.m.] [p.m.]

NODYN: Os bydd y person sy'n gwneud y datganiad uchod yn ystyriol ac yn fwriadol yn gwneud datganiad ffug ynglŷn ag unrhyw fater o bwys, bydd yn euog o drosedd.

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order replaces and revokes the Elections (Welsh Forms) Order 1970 ("the 1970 Order"). The forms prescribed by Schedule 1 to this Order are versions partly in Welsh and partly in English which must be used in Wales for the purposes referred to in article 4 of this Order. The forms prescribed by Schedule 2 to this Order are Welsh versions of certain forms which may be used at a parliamentary election in Wales.

The differences between this Order and the 1970 Order are as follows. The bilingual versions of the forms in Schedule 1 to this Order are not prescribed by the 1970 Order. Schedule 2 to this Order omits the Welsh version of the declaration of secrecy consequent on the repeal of the requirement for such a declaration but includes the Welsh version of the directions for the guidance of the voters in voting.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*NODYN ESBONIO(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli a diddymu'r Elections (Welsh Forms) Order 1970 ("Gorchymyn 1970"). Mae'r ffurflenni a bennir gan Atodiad 1 y Gorchymyn hwn yn fersiynau rhannol Gymraeg a rhannol Saesneg y mae rhaid eu defnyddio yng Nghymru at y dibenion y cyfeirir atynt yn erthygl 4 y Gorchymyn hwn. Mae'r ffurflenni a bennir yn Atodiad 2 y Gorchymyn hwn yn fersiynau Cymraeg o rai ffurflenni y gellir eu defnyddio mewn etholiad seneddol yng Nghymru.

Mae'r gwahaniaethau rhwng y Gorchymyn hwn a Gorchymyn 1970 fel a ganlyn. Ni phennwyd fersiynau dwyieithog y ffurflenni gan Atodiad 1 y Gorchymyn hwn gan Orchymyn 1970. Mae Atodiad 2 y Gorchymyn hwn yn hepgor fersiwn Cymraeg y datganiad cyfrinachedd o ganlyniad i ddiddymu'r gofyniad am ddatganiad o'r fath ond mae'n cynnwys fersiwn Cymraeg o'r cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wrth bleidleisio.